Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Cynllun Twf Gogledd Cymru Adroddiad Perfformiad Chwarterol

## 2024-25 Chwarter 1
## (Ebrill - Mehefin 2024)

# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 01 | Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio | 3 |
| 02 | Perfformiad y Portffolio | 4 |
| 03 | Perfformiad y Rhaglen Ddigidol | 5 |
| 04 | Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel | 7 |
| 05 | Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo | 10 |
| 06 | Perfformiad y Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | 13 |
| 07 | Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | 15 |
| 08 | Olrhain Cynnydd y Prosiectau | 17 |
| 09 | Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf- Achos Fusnes y Portffolio 2023 | 18 |
| 10 | Traciwr Amcanion - Trosolwg o gyflawni (Mehefin 2024) | 19 |
| 11 | Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf | 20 |
| 12 | Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf | 21 |
| | ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau y Cynllun Twf | 22 |

# 01 CRYNODEB Y CYFARWYDDWR PORTFFOLIO

Dros y chwarter diwethaf, rhoddwyd y brif sylw i ddatblygu cyfres gref o achosion busnes i'w cymeradwyo'n gan y Bwrdd Uchelgais. Mae'r rhain yn cynnwys y Ganolfan Biodechnoleg Amgylcheddol, LPWAN, Cydnerth, Rhwydwaith Talent Twristiaeth, Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy, Di-wifr Uwch a Pharc Bryn Cegin.

Yn ystod y chwarter cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais yr Achos Busnes Llawn ar gyfer prosiect cyn-Ysbyty Gogledd Cymru. Mae hwn yn garreg filltir arwyddocaol ar gyfer y Cynllun Twf, fydd yn arwain at ddatblygu'r safle gan gynnwys adnewyddu'r adeilad rhestredig Gradd 2*, datblygu tai newydd a gofodau gwyrdd, cyfleuster sgiliau a hyfforddi ynghyd â dros 1,000m² o ofod masnachol. Caiff y cytundeb Adran 106 ei gyflwyno i bwyllgor cynllunio Cyngor Sir Dinbych ym mis Gorffennaf, ac mae'r trafodaethau ar y cytundeb ariannu ym mynd rhagddynt gyda Jones Bros.

Mae rhai o'n prosiectau wedi gwneud cynnydd rhagorol dros y chwarter. Mae'r gwaith o adeiladu'r Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn symud yn ei flaen yn dda. Lansiwyd y broses gaffael ar gyfer adnewyddu ac offer opteg a'r elfen hydrogen. Mae Prifysgol Bangor wedi lansio 4 tendr ar gyfer y Ganolfan Prosesu Signal Digidol, ac mae Grŵp Llandrillo Menai wedi lansio galwad ar gyfer is-ganolfan (spoke) olaf y Rhwydwaith Talent Twristiaeth.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ffrydiau gwaith wedi'u hariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin:

- Penodwyd Annog Cyf i gyflwyno rhaglen i gefnogi cymunedau i wella eu band eang drwy ymgyrch ymgysylltu i hyrwyddo amrywiol ffrydiau o gyllid a gwybodaeth; ynghyd â chefnogaeth uniongyrchol i helpu cymunedau sydd â'r band eang gwaethaf.
- Mae BIC Innovation yn cyflwyno prosiect sy'n darparu cyngor ac arweiniad i fusnesau bach ar sut y gallant fabwysiadu'r technolegau cyfathrebu digidol diweddaraf.
- Lansiwyd y pecyn cymorth Ysgrifennu Ceisiadau Ynni Lleol Blaengar. Mae'r tendr yn fyw ar GwerthwchiGymru i adnabod rhestr o gyflenwyr, ac mae'r broses ymgeisio ar agor i fusnesau bach a chanolig (SMEs), mentrau cymdeithasol a sefydliadau cymunedol i gaffael ymgynghorydd ar ysgrifennu ceisiadau.

Mewn partneriaeth gyda chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, lansiwyd gwedd 2 y prosiect Allyriadau a Bioamrywiaeth gyda'r amcan o symleiddio'r dull yn unol â phrosesau achosion busnes llywodraeth leol; a hyfforddi dros 75 o reolwyr prosiect a phenderfynwyr ar draws Cymru sut i ddefnyddio'r dull.

Mae Miller Associates wedi cyflwyno adroddiad ymchwil 'Cryfhau Systemau Bwyd Lleol a Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru'. Comisiynwyd yr ymchwil gan Uchelgais Gogledd Cymru, ar sail dull systemau cyfan i edrych ar ystyriaethau economaidd, iechyd, tlodi ac amgylcheddol. Caiff yr adroddiad ei gwblhau'n derfynol a'i rannu'n rhanbarthol yn ystod y chwarter nesaf.

Mae'r chwarter nesaf yn argoeli i fod yn gyfnod prysur gyda nifer o brosiectau yn targedu cymeradwyaeth i'r achosion busnes gan y Bwrdd Uchelgais.



**Alwen Williams**

**Cyfarwyddwr Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru**

# 02 PERFFORMIAD Y PORTFFOLIO

| Themâu | Statws RAG | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Achos Busnes y Portffolio** | [Green] | Cymeradwywyd diweddariad 2023 Achos Busnes y Portffolio gan y Bwrdd ym mis Hydref ac mae wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol. |
| **Piblinell Cyflawni** | [Amber] | Mae'r biblinell gyflenwi wedi cael ei hadolygu a'i diweddaru fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes Portffolio 2023. Bydd y prosiectau bellach yn adrodd yn erbyn yr amserlen ddiwygiedig hon. |
| **Llywodraethu** | [Green] | Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn gweithredu'n effeithiol. Mae gweithdrefn Gwrthdaro Buddiannau yn ei lle ar draws yr holl Fyrddau. |
| **Sicrwydd** | [Green] | Mae'r pedwerydd adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglenni) wedi'i gwblhau ym mis Hydref 2023, gyda'r adroddiad yn cyflawni gradd hyder 'Ambr-Coch' ar gyfer y portffolio.<br>Cynhaliwyd adolygiad dilynol Sicrwydd Cynllun Gweithredu (AAP) ym mis Rhagfyr 2023, gyda'r adroddiad yn cyflawni gradd hyder 'Ambr-Gwyrdd'. Bydd yr adolygiad nesaf yn digwydd yn ystod mis Hydref 2024. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) wedi comisiynu adolygiad annibynnol o Lywodraethu a Sicrwydd, sydd i'w gwblhau erbyn canol mis Gorffennaf. |
| **Adnoddau a Chapasiti** | [Green] | Mi fydd y Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf yn gadael ei swydd ddiwedd fis Awst; mae'r broses recriwtio ar gyfer y swydd wedi dechrau, gyda chyfweliadau wedi'u trefnu yn ystod wythnos gyntaf mis Gorffennaf. Ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn mis Mawrth, mae contractau tymor penodol (heb gynnwys staff a ariennir gan LEAP neu SPF) wedi'u hymestyn i fis Mawrth 2026, gan leihau'r risg y bydd staff yn gadael yn y tymor byr. |
| **Cyllid** | [Amber] | Mae cyfanswm o £4.49m o arian y Cynllun Twf wedi cael ei wario hyd yma. Roedd hyn yn cynnwys £2.15m ar y Ganolfan Prosesu Signal Digidol, £0.75m ar y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter ac £1.22m i ariannu'r gwariant refeniw. |
| **Buddsoddiad** | [Red] | Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod yn risg arwyddocaol ar draws y portffolio. Bu'r Bwrdd Uchelgais gymeradwyo'r Strategaeth Fuddsoddi yn ystod eu cyfarfod ym mis Mawrth 2024. |
| **Risg** | [Red] | Mae'r proffil risg cyffredinol yn parhau i fod yn gyson â Chwarter 4. Mae'r risg o ran capasiti wedi lleihau oherwydd recriwtio diweddar i'r Swyddfa Rheoli Portffolio, ond ychwanegwyd risg newydd at y gofrestr i gynnwys y bwriad o drosglwyddo'r tîm a'r Cynllun Twf i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Mae nifer o risgiau gweddilliol uchel yn parhau sy'n cael eu rheoli gan y Swyddfa Rheoli Portffolio gan gynnwys fforddiadwyedd, materion caniatâd, oedi a buddsoddiad. |
| **Monitro a Gwerthuso Buddion** | [Green] | Mae sesiynau hyfforddi wedi'u cynnal gydag Uchelgais Gogledd Cymru a Noddwyr Prosiectau ar sut i ddefnyddio'r platfform Adrodd am Fuddion a ddatblygwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r prosiectau wedi uwch lwytho eu dangosyddion, a byddant yn dechrau poblogi'r platfform dros yr wythnosau nesaf, er mwyn galluogi i'r timau prosiect, rhaglen a phortffolio i dracio cynnydd tuag at amcanion a buddion gwariant. |
| **Allyriadau a Bioamrywiaeth** | [Green] | Mewn partneriaeth gyda chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, lansiwyd gwedd 2 y prosiect Allyriadau a Bioamrywiaeth gyda'r amcan o (1) symleiddio'r dull yn unol â phrosesau achosion busnes llywodraeth leol a (2) hyfforddi dros 75 o reolwyr prosiect a phenderfynwyr ar draws Cymru sut i ddefnyddio'r dull. |
| **Cyfathrebu ac Ymgysylltu** | [Green] | Yn ystod y chwarter, cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg ar 'Gwasanaethau 4G a band eang cyflym i Ogledd Cymru' a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Rhannwyd manylion ar y cyfryngau cymdeithasol am weithgareddau a ariannwyd gan SPF ac am swydd Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf. Parhau i dyfu wnaeth ein hymgysylltiad a'n cyrhaeddiad ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda dros 6,000 o ddefnyddwyr y wefan. |

# 03 PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL

## Nod y Rhaglen

Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra gyda gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus.

**Targed Creu Swyddi**
**380**

**Targed Buddsoddi GVA**
**£158m**

**Cyfanswm Buddsoddiad**
**£41.7m**

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Ers i'r Bwrdd Uchelgais gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol '4G+' ym mis Mawrth, mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu'r Achos Busnes Llawn, gan gynnwys paratoadau ar gyfer ymgysylltu â'r farchnad.<br>• Cwblhawyd Adolygiad Porth 2 ar Achos Busnes Amlinellol Di-wifr Uwch Campysau Cysylltiedig ym mis Mai, gyda canlyniad o raddfa Ambr. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r argymhellion cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais.<br>• Mae gwaith ar y gweill ar brosiectau rhanbarthol i gefnogi busnesau bach a chanolig i ymchwilio i dechnolegau newydd ac i wella cysylltedd band eang mewn cymunedau lleol; wedi'i ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin. |



**Cyng. Mark Pritchard**
**Aelod Arweiniol**



**David Fitzsimon**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**Stuart Whitfield**
**Rheolwr Rhaglen**

- Gwyrdd: Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- Ambr: Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)
- Coch: Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 03 PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Prosesu Signal Digidol**<br>Prifysgol Bangor | Cyflawni Prosiect | • Achos Cyfiawnhad Busnes Cam 3 (terfynol) wedi'i ddrafftio ar gyfer adolygiad Uwch Berchennog Cyfrifol mewnol y prosiect. | • Cyflwyno'r achos cyfiawnhad busnes terfynol ar gyfer trydydd gwedd y cyllid i brynu offer. | | • Adolygiad o'r drafft cyntaf o'r achos cyfiawnhad busnes gan y Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) wedi'i gynnal. Mae gwaith pellach ar y gweill gan Prifysgol Bangor i'w gwblhau. |
| **Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Oedi ar ddatblygu'r prosiect cyn derbyn canlyniad caffael traws-ranbarthol Prosiect Gigabit Llywodraeth y DU (BDUK) (disgwylir ym mis Gorffennaf 2024);<br>• Penodwyd Annog Cyf. i ymgymryd â phrosiect cefnogi cysylltedd gwledig wedi'i ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Ymgyrch ymgysylltu â'r gymuned ar gyfer y prosiect. | • Disgwylir canlyniad cychwynnol caffael Llywodraeth y DU ar gyfer Prosiect Gigabit erbyn y chwarter nesaf, pan fydd yr opsiynau ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yn cael eu hadolygu.<br>• Bydd cefnogaeth ffrydiau gwaith y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer cymunedau yn parhau. | | • Buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn band eang yn y rhanbarth i ddechrau yn dilyn y broses gaffael bresennol ar gyfer ei fframwaith 'traws-ranbarthol'. Bydd canlyniad hyn yn diffinio eiddo ar gyfer ymyrraeth y Cynllun Twf;<br>• Dechreuodd gwaith i hyrwyddo uwchraddiadau lleol yn ym mis Ebrill, wedi'i ariannu gan SPF, o dan arweiniad Uchelgais Gogledd Cymru ac yn cael ei gyflwyno gan Annog Cyf. |
| **Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig**<br>Uchelgais Gogledd Cymru<br>• **4G+**<br>• **Ffeibr Llawn** | • Datblygu'r Achos Busnes Llawn (4G+)<br>• Datblygu'r Achos Fusnes Amlinellol (Ffeibr Llawn) | • Mae'r gwaith paratoi ar gyfer ymgysylltu â'r farchnad ar gyfer y prosiect 4G+ wedi cychwyn. | • Oedi ar ddatblygu'r prosiect ffibr gan ddisgwyl am ganlyniad caffael traws-ranbarthol Prosiect Gigabit Llywodraeth y DU (BDUK) (disgwylir ym mis Gorffennaf 2024)<br>• Ymgysylltu â'r farchnad 4G+ | | • Prosiect yn awr yn mynd rhagddo i ymgysylltu â'r farchnad a chaffael;<br>• Bydd y prosiect ffibr yn ail-gychwyn yn dilyn canlyniad caffael traws-rhanbarthol Llywodraeth y DU ar gyfer band eang gigabit. |
| **Campysau Cysylltiedig**<br>Uchelgais Gogledd Cymru<br>• **Di-wifr Uwch**<br>• **LPWAN** | • Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol (Di-wifr Uwch)<br>• Datblygu'r Achos Cyfiawnhad Busnes (LPWAN) | • Prosiect SPF i gyflawni asesiadau cysylltedd ar gyfer SMEs lleoli y rhanbarth i gefnogi amcanion y prosiect Di-wifr Uwch wedi cychwyn;<br>• Adolygiad Porth 2 o'r prosiect Di-wifr Uwch wedi'i gwblhau;<br>• Newidiadau i'r Achos Cyfiawnhad Busnes Cam 3 LPWAN wedi'i ddrafftio ar gyfer yr adolygiad terfynol. | • Cymeradwyaeth i Achos Cyfiawnhad Busnes gan y Bwrdd Uchelgais<br>• Cwblhau'r camau gweithredu yn dilyn yr Adolygiad Porth 2 Di-wifr Uwch | | • Adolygiad Porth 2 ar gyfer Di-wifr Uwch wedi'i gwblhau gydag argymhellion clir i weithredu arnynt cyn ei ystyried gan y Bwrdd Uchelgais;<br>• Achos Cyfiawnhad Busnes LPWAN wedi'i ddiweddaru cyn yr adolygiad gan y Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais. |

# 04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

## Nod y Rhaglen

Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.

**Targed Creu Swyddi**
**980**

**Targed Buddsoddi GVA**
**£530m**

**Cyfanswm Buddsoddiad**
**£668.5m**

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
| --- | --- |
| | • Egni - Mae Cam 3 RIBA yn gwneud cynnydd da ac yn barod i'w lofnodi'n derfynol.<br>• Safle Treuliad Anaerobig Glannau Dyfrdwy - Cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud i oresgyn materion allweddol yn ymwneud â chytundeb ariannu cyn cyflwyno'r Achos Busnes Llawn i'r Bwrdd Uchelgais am ystyriaeth.<br>• NEW-H2 - gwedd nesaf y sesiwn denu y chwarter hwn er mwyn bwrw ymlaen â datblygu'r achos busnes.<br>• Hwb Hydrogen Caergybi - mae'r prosiect yn gobeithio cryfhau'r sefyllfa pryniant 'offtake' ar gyfer Hydrogen cyn symud i'r camau nesaf.<br>• Cydnerth - Mae'r Achos Busnes Amlinellol wedi'i orffen yn derfynol a chaiff ei gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais i'w ystyried ym mis Gorffennaf.<br>• Ynni Lleol Blaengar - Mae dogfennau tendr Ymgynghorydd y Gronfa wedi'u cwblhau'n derfynol. Mae'r amserlen ar gyfer lansio'r tendr ac adolygu'r cyflwyniadau i osgoi cyfnodau gwyliau'r haf yn cael ei gynllunio. |



Cyng. Llinos Medi
Aelod Arweiniol



Dylan Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Elgan Roberts
Rheolwr Rhaglen

- Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)
- Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cydnerth (Morlais)**<br>Menter Môn | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Cytuno ar benawdau telerau benthyciad gyda Menter Môn Morlais Cyf.<br>• Sefyllfa sicrwydd ar gyfer benthyciad wedi'i gytuno mewn egwyddor gyda WEFO.<br>• Cytunwyd ar benawdau telerau drafft rhwng Menter Môn Morlais Cyf. a Llywodraeth Cymru.<br>• Cwblhau'r Achos Busnes Amlinellol yn derfynol. | • Cwblhau trefniadau ariannu Llywodraeth Cymru.<br>• Cynnal trafodaethau gyda WEFO i negodi unrhyw gymalau posib yng nghytundeb ariannu cyfredol WEFO er mwyn hwyluso cytundeb benthyciad Uchelgais Gogledd Cymru gyda Menter Môn Morlais Cyf.<br>• Cychwyn caffael (yn amodol ar gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol). | | • Achos Busnes Amlinellol wedi'i gwblhau'n derfynol ac yn cael ei ystyried am gymeradwyaeth. |
| **Hwb Hydrogen**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Cynnal y sesiynau denu ('onboarding') cyntaf gydag noddwr newydd y prosiect. | • Cyflwyno cam nesaf y sesiynau denu.<br>• Cwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda noddwr y prosiect.<br>• Cadarnhau amserlen datblygu'r achos busnes. | | • Ychydig o oedi gyda'r broses o benodi'r noddwr, ond ni effeithir ar yr amserlenni cyffredinol gyda'r noddwr yn mynd drwy'r broses ddenu. |
| **Egni**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Parhau gyda gwaith ar ddatblygu Cam 3 RIBA | • Cymeradwyo'r cynllun caffael.<br>• Cymeradwyo Cam 3 RIBA a dechrau ar broses gaffael 2 gam ar gyfer prif gontractwr.<br>• Parhau i ddatblygu'r Achos Busnes Llawn. | | • Y prosiect ar y trywydd cywir ar y cyfan. Ychydig o lithriad i amserlen datblygu Cam RIBA y gellid ei grafangu yn ôl ar gyfer Achos Busnes Llawn. |
| **Ynni Lleol Blaengar**<br>Uchelgais Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Dogfennau tendr wedi'u cwblhau.<br>• Pecyn cefnogi ysgrifennu cyflwyniadau wedi'i ariannu gan SPF. | • Ail-lansio tendr Ymgynghorydd y Gronfa.<br>• Parhau i esblygu'r dull gofynnol o reoli cymhorthdal.<br>• Cwblhau'r strategaeth fuddsoddi a'r Achos Busnes Llawn drafft. | | • Bydd caffael Ymgynghorydd y Gronfa yn cael ei ryddhau'n fuan ar GwerthwchiGymru. Bydd yr ansicrwydd yn parhau nes ddaw'r broses honno i ben. |

# 04 PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Trawsfynydd**<br>Cwmni Egino | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Disgwyl am benderfyniadau gan Great British Nuclear (GBN) a Llywodraeth y DU ar ddewis technoleg a dewis safleoedd. | • Dim camau gweithredu sylweddol wedi'u cynllunio nes bod penderfyniadau yn cael eu gwneud gan Great British Nuclear (GBN) a Llywodraeth y DU ar ddewis technoleg a dewis safleoedd. | | • Statws RAG yn goch gan fod y penderfyniadau sydd eu hangen gan Great British Nuclear a Llywodraeth y DU ar ddewis technoleg a dewis safleoedd fisoedd i ffwrdd, sy'n cynyddu'r ansicrwydd ar amserlenni cyflawni'r rhaglen. |
| **Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy**<br>The Circular Economy Developments | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Cytuno ar y ffordd ymlaen ar gyfer mwyafrif gofynion y cytundeb ariannu. | • Cytuno ar y ffordd ymlaen ar gymalau'n ymwneud â rheoli cymhorthdal.<br>• Cwblhau asesiad rheoli cymhorthdal.<br>• Gweithredu argymhellion yr Achos Busnes Amlinellol sy'n weddill a chyflwyno Achos Busnes Llawn i'w gymeradwyo. | | • Cytundeb ariannu i'w gwblhau ac asesiadau rheoli cymhorthdal i'w cwblhau cyn y gellir cyflwyno Achos Busnes Llawn ar gyfer cymeradwyaeth. Mae'r statws RAG yn adlewyrchu'r oedi gafwyd ers cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol. |
| **Hwb Hydrogen Caergybi**<br>Menter Môn | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Cyfarfodydd rheolaidd gyda DESNZ a Llywodraeth Cymru i drafod y gofynion rheoli cymhorthdal ac i alinio'r dull yn well.<br>• Archwilio cyfleoedd posib gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau cytundebau 'offtake'. | • Trafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru a DESNZ i archwilio cyfleoedd ariannu posib i sicrhau cytundebau 'offtake' gan y sector cyhoeddus.<br>• Cynnal asesiad cymhorthdal gyda rhagolygon ariannol diweddaraf y prosiect. | | • Statws RAG bellach yn goch gan fod cyflawni 50% 'offtake' yn dibynnol ar ymrwymiad y sector cyhoeddus, sy'n parhau i fod yn ansicr. |

# 05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

## Nod y Rhaglen

Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael.

**Targed Creu Swyddi**
**2280**

**Targed Buddsoddi GVA**
**£129bn**

**Cyfanswm Buddsoddiad**
**£355.4m**

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • **Warren Hall, Brychdyn -** Mae ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen gyda'u hadolygiad o addasrwydd safleoedd y prosiectau i gydymffurfio ag achos diogelwch maes awyr Penarlâg.<br>• **Porth y Gorllewin, Wrecsam -** Mae Trafnidiaeth i Gymru wedi cwblhau asesiad Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) 0 fel achos diwygiedig dros newid. Mae'r Cyngor bellach yn comisiynu adolygiad WelTAG Lite i ddiwallu'r profion buddsoddi priffyrdd.<br>• **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych -** Cafodd Achos Busnes Llawn ei gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Mai 2024. Bwriedir i Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ystyried y cytundeb A106 ym mis Gorffennaf. Mae trafodaethau ar y Cytundeb Ariannu gyda Jones Bros yn mynd rhagddo. Mae Memorandwm Dealltwriaeth Rownd 3 y Gronfa Ffyniant Bro wedi'i gwblhau gan y Cyngor a'i ddychwelyd i Lywodraeth y DU.<br>• **Porth Caergybi -** Mae achos busnes amlinellol prosiect i ehangu Porthladd Caergybi wedi'i gwblhau'n sylweddol. Mae Stena Line Ports Limited wedi gofyn am amser ychwanegol i gwblhau eu trafodaethau masnachol perthnasol.<br>• **Parc Bryn Cegin, Bangor -** Mae'r ymgynghorydd, SP Projects, wedi darparu lluniadau cynllun, cynlluniau llawr a lluniadau drychiad ynghyd â manylion y costau ym mis Mehefin a chytunwyd arnynt gan yr holl bartïon. Mae'r Achos Busnes Amlinellol drafft wedi'i gwblhau'n sylweddol. Mae cyfarfodydd tîm prosiect rheolaidd ar y gweill.<br>• **Stiwdios Kinmel --** Stage 50 Ltd wedi'i roi yn nwylo'r gweinyddwyr ar ddechrau Ebrill gan eu prif ariannwr. Mae trafodaethau arfaethedig wedi'i rhaglennu rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Uchelgais Gogledd Cymru a'r unigolion allweddol oedd ynghlwm wrth y cynnig gwreiddiol, a fydd i'w cynnal ym mis Gorffennaf er mwyn ystyried a oes modd datblygu cais diwygiedig.<br>• **Porth Wrecsam -** Yn dilyn cadarnhad Llywodraeth y DU y bydd 300 a mwy o swyddi'r Gwasanaeth Sifil yn cael eu hadleoli o Lundain/Siroedd Cartref i Wrecsam, cwblhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yr Achos Busnes Amlinellol a gefnogwyd gan y Bwrdd Rhaglen Tir ac Eiddo ym mis Mehefin. Bydd y Cyngor yn awr yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol a'r cais cynllunio. |

# 05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth y Gorllewin, Wrecsam**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn caffael ymgynghorydd i ddarparu asesiad WelTAG Lite ar gyfer llif traffig yn 2024. | • Dechrau asesiad WelTAG Lite ar gyfer llif traffig a niferoedd diwygiedig ar gyfer y prosiect. | | • Newidiwyd graddfa risg y prosiect i ambr yn dilyn y Gweinidog ar gyfer Gogledd Cymru a Trafnidiaeth yn nodi y gallai Llywodraeth Cymru benderfynu adolygu argymhellion yr Adolygiad Ffyrdd ar Brosiectau Cyfalaf Priffyrdd y dyfodol. |
| **Warren Hall, Brychdyn**<br>Llywodraeth Cymru / Uchelgais Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae Ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru yn parhau gyda'u profion cydymffurfiaeth ar gyfer yr achos diogelwch maes awyr ar safle'r prosiect. | • Adroddiad ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru ar gallu'r safleoedd i gydymffurfio ag achos diogelwch y maes awyr. | | • Graddfa risg y prosiect yn dal yn ambr gan fod adolygu achos diogelwch y maes awyr yn aros am asesu'n llawn a'i gytuno gan Airbus UK. |
| **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych**<br>Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych | Mae'r Achos Busnes Llawn wedi ei gymeradwyo, a mae'r prosiect yn symud ymlaen tuag at gyflawni. | • Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Mai 2024.<br>• Memorandwm Dealltwriaeth Rownd 3 y Gronfa Ffyniant Bro wedi'i gwblhau gan y Cyngor a'i ddychwelyd i Lywodraeth y DU.<br>• Noddwr y prosiect i gyflwyno dogfennau i'r Awdurdod Cynllunio ar y cytundeb A106, cydymffurfiaeth ag amodau cynllunio a thrwyddedau Cynefinoedd. | • Cyfeiriad Cefnogaeth Cymhorthdal i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i'w gofrestru ar wefan yr Awdurdod.<br>• Cwblhau'r cytundeb ariannu gyda Jones Bros.<br>• A106 wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor.<br>• Jones Bros yn dechrau'r gwaith Gwedd 1. | | • Y prosiect yn cadw ei raddfa risg gwyrdd gan bod yr Achos Busnes Llawn wedi ei gymeradwyo gyda gwaith ar y cytundeb ariannu a rheoli cymhorthdal yn mynd yn dda. |
| **Parc Bryn Cegin, Bangor**<br>Llywodraeth Cymru / Uchelgais Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol. | • SP Projects wedi cwblhau'r pecyn darluniau, meintiau llawr yr unedau a manylion y costau wedi eu cytuno.<br>• Mwyafrif o'r Achos Busnes Amlinellol a'r dogfennau cysylltiol wedi eu cwblhau. | • Adolygiad Porth 2 i'w gynnal ym mis Medi.<br>• Cwblhau'r Achos Busnes Amlinellol a dechrau ar y broses gymeradwyo.<br>• Trafodaethau ar y cais cyn cynllunio i gychwyn. | | • Y prosiect yn cadw ei raddfa risg gwyrdd gan ei fod ar y trywydd cywir i gyflwyno Achos Busnes Amlinellol i'r Bwrdd Uchelgais yn yr Hydref. |

# 05 PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth Caergybi**<br>Stena Line Ports Limited | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae Stena wedi gofyn am oedi i datblygiad y prosiect tra'n disgwyl am ganlyniad eu trafodaethau masnachol gyda'r sector ynni ar y môr. | • Cytundeb ar delerau rhwng Stena a defnyddwyr terfynol masnachol. | | • Graddfa risg yn cael ei gadw ar ambr gan bod trafodaethau gyda defnyddwyr terfynol ardaloedd newydd y porthladd yn pahau. |
| **Stiwdios Kinmel** | Mae'r prosiect yn cael ei adolygu | • Stage Fifty Ltd wedi'i roi yn nwylo'r gweinyddwyr ym mis Ebrill ac yn debygol o gael ei ddiddymu yn dilyn talu'r credydwyr o asedau'r cwmni.<br>• Trafodaethau ar y gweill gyda'r cyn Reolwr Gyfarwyddwr i weld a oes ariannwr newydd ar gyfer y prosiect. | • Cynigion diwygiedig i'w cyflwyno am ystyriaeth ar gyfer y prosiect erbyn diwedd mis Awst 2024. | | • Graddfa risg yn goch ar ôl i Stage Fifty fynd i ddwylo'r gweinyddwyr. |
| **Porth Wrecsam**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Achos Amlinellol Strategol wedi'i gefnogi gan y Bwrdd Rhaglen Tir ac Eiddo ym mis Mehefin. | • Mae'r Cyngor ar fin dechrau datblygu'r Achos Busnes Amlinellol a'r Cais Cynllunio. | | • Graddfa risg yn wyrdd gan fod y prosiect yn symud i'r cam nesaf. |



**Cyng. Jason McLellan**
**Aelod Arweiniol**



**Andrew Farrow**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**David Mathews**
**Rheolwr Rhaglen**

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 06 PERFFORMIAD Y RHAGLEN BWYD-AMAETH A THWRISTIAETH

## Nod y Rhaglen

Bydd y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth yn uchafu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant yng Ngogledd Cymru gan ddarparu cyfleusterau cefnogol i sicrhau bod gan y rhanbarth y sgiliau i ragori ac i fod gyda'r gorau yn y byd. Bydd y Rhaglen hefyd yn sicrhau ffyniant drwy fanteisio i'r eithaf mewn modd cynaliadwy ar ein hamgylchedd a'n tirwedd.

**Targed Creu Swyddi**
**380**

**Targed Buddsoddi GVA**
**£281m**

**Cyfanswm Buddsoddiad**
**£41.3m**

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Ambr) | • Mae'r prosiect Antur Gyfrifol wedi parhau i ddatblygu'r Achos Busnes Amlinellol drwy ymweliadau safle gyda rhanddeiliaid a pharatoi ar gyfer ceisiadau cyn-cynllunio.<br>• Mae'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth a'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi gweithio ar y cyd i gwblhau'r caffael a'u Hachos Busnes Llawn ochr yn ochr â rheoli ymarfer ail-frandio, prosiect ymgysylltu â myfyrwyr wedi'i ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin a dewis is-ganolfan derfynol y prosiect.<br>• Mae Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon yn ystyried opsiynau ar ôl derbyn adborth ar eu harolygon amgylcheddol wedi'u diweddaru gan Cyfoeth Naturiol Cymru.<br>• Mae'r grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd i archwilio'r bwlch amaeth/garddwriaeth yn y Cynllun Twf wedi derbyn adroddiad ymchwil drafft ac maent yn gweithio gyda'r bwrdd rhaglen a rhanddeiliaid ehangach i gwblhau'r adroddiad cyn iddo gael ei rannu'n rhanbarthol. |



**Cyng. Charlie McCoubrey**
**Aelod Arweiniol**



**Sioned Williams**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**Robyn Lovelock**
**Rheolwr Rhaglen**

- (Gwyrdd) Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim ond mân materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)
- (Ambr) Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)
- (Coch) Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 06 PERFFORMIAD Y RHAGLEN BWYD-AMAETH A THWRISTIAETH

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Newid yr Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) o Martin Jardine fel SRO dros-dro i Gwenllian Roberts.<br>• Mae gweddill o'r arolygon amgylcheddol wedi'u cwblhau a'u rhannu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.<br>• Mae cynlluniau prosiect diwygiedig wedi'u diweddaru a'u rhannu gyda Cyngor Gwynedd. | • Ystyried adborth gan Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru.<br>• Penderfynu os am baratoi cais cynllunio llawn.<br>• Datblygu'r Achos Busnes Llawn ymhellach. | | • Mae'r graddfa yn parhau i fod yn goch oherwydd oedi gyda'r prosiect a'r materion a godwyd fel rhan o'r ceisiadau cynllunio. |
